# Cadw dysgwyr yn ddiogel

Fersiwn gryno

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Cyflwyniad

Mae Cymru'n lle gwych i dyfu i fyny. Mae cymaint o gyfleoedd i blant ddysgu, cymryd rhan, bod yn actif a chael bywydau diogel, hapus ac iach.

Mae Llywodraeth Cymru am i bob plentyn fwynhau'r cyfleoedd hyn. Felly, rydym wedi rhoi cyfreithiau a systemau diogelu cryf ar waith i gadw pawb yn ddiogel.

**Mae diogelu yn golygu amddiffyn plant rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod.**

Mae gan bob awdurdod lleol, ysgol a choleg yng Nghymru ddyletswydd gyfreithiol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant o dan 18 mlwydd oed.

Mae lleoliadau addysg mewn sefyllfa dda i sylwi ar arwyddion o gamdriniaeth, esgeulustod neu niwed. Rydym am sicrhau eu bod yn cael yr holl arweiniad a chymorth sydd eu hangen arnynt i gadw plant yn ddiogel a hybu eu lles. Felly, rydym wedi ysgrifennu'r **Canllawiau Diogelu** hyn.

**Rhaid** i'r Canllawiau Diogelu hyn gael eu darllen a'u dilyn gan:

- awdurdodau lleol
- cyrff llywodraethu
- pob ysgol (gan gynnwys ysgolion meithrin ac ysgolion annibynnol)
- pob coleg.

It is effective practice for wider education settings and agencies to follow this guidance too.



Mae'n nodi pethau:

**mae'n rhaid iddynt eu gwneud** oherwydd mai dyna'r gyfraith

**y dylent eu gwneud** oherwydd ei fod yn rhan o'r canllawiau hyn.

Rydym hefyd yn rhoi enghreifftiau o arfer da y gallant eu dilyn.

# Ynghylch diogelu yng Nghymru

**Mae'n rhaid i'r holl leoliadau addysg wneud y canlynol:**

- lleihau risgiau
- cymryd y camau cywir i gadw plant yn ddiogel
- dilyn y gyfraith
- dilyn yr holl bolisïau, canllawiau a gweithdrefnau cenedlaethol a lleol
- meddu ar eu polisïau a'u gweithdrefnau eu hunain
- gwybod am anghenion diogelu yn eu hardal.

**Os nad ydynt, gallwn gymryd camau gweithredu.**

## Un pwynt cyswllt

**Rhaid** i bob awdurdod lleol gael un pwynt cyswllt diogelu ar gyfer pobl sy'n gweithio gyda phlant. Mae hyn yn helpu pawb i wybod ble i fynd os ydyn nhw'n meddwl bod plentyn mewn perygl.

## Unigolyn Diogelu Dynodedig (DSP)

**Rhaid** i bob ysgol neu goleg gael DSP. Dylai pawb sy'n gweithio yn yr ysgol a'r coleg:

- wybod pwy yw cyswllt eu hawdurdod lleol
- adnabod eu DSP.

## Byrddau Diogelu Plant

Mae bob awdurdod lleol yn aelod o Fwrdd Diogelu Plant. Mae'r Bwrdd hwn yn gweithio ar draws gwahanol wasanaethau, gan gynnwys addysg. **Rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau bod y Cyfarwyddwr Addysg yn aelod o'r Bwrdd ac yn mynychu cyfarfodydd.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

Mae'r UNCRC yn gytundeb rhyngwladol sy'n diogelu hawliau dynol plant o dan 18 mlwydd oed. Mae wrth wraidd popeth a wnawn yng Nghymru. **Dylid** i oedolion sicrhau bod pob plentyn yn gallu mwynhau'r hawliau hyn, gan gynnwys yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod (Erthygl 19).

Rydyn ni eisiau i'r holl wasanaethau wneud y canlynol:

- rhoi hawliau plant wrth wraidd cynllunio a darparu
- rhoi cyfle cyfartal i bob plentyn
- adeiladu galluoedd plant fel y gallant brofi eu hawliau
- gwrando ar blant ac ystyried eu barn
- bod yn atebol am benderfyniadau a chamau gweithredu sy'n effeithio ar fywydau plant.

## Arolygiadau

Mae pob ysgol a choleg yn cael eu harolygu gan Estyn, ac weithiau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae arolygwyr yn edrych ar sut maen nhw'n cadw plant yn ddiogel ac yn gwirio eu polisi diogelu.

Mae'n arfer da i'r Unigolyn Diogelu Dynodedig wirio sut mae'r ysgol yn cadw plant yn ddiogel o leiaf unwaith y flwyddyn.

**Rydym hefyd yn cadw plant yn ddiogel drwy:**

- **Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan 2019.** Mae'r rhain yn helpu gwasanaethau i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau: diogelu.cymru.
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.** Mae'r gyfraith hon yn nodi sut y dylai ysgolion a cholegau gamu i mewn yn gynnar pan fyddant yn credu bod plentyn mewn perygl a'u cadw'n ddiogel.
- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.** Mae Dyletswydd ar y gyfraith hon i Adrodd. **Rhaid** i ysgolion a cholegau ddweud wrth yr awdurdod lleol pan fyddant yn credu bod plentyn mewn perygl.
- **Deddf Cydraddoldeb 2010. Rhaid** i awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau fod yn lleoedd teg sy'n trin pawb yn gyfartal.



# Swyddogaethau a chyfrifoldebau diogelu

Mae cadw plant yn ddiogel yn waith i bawb. Mae gan bob rhan o'r system addysg rôl a chyfrifoldeb.

## Awdurdodau lleol


Mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am amddiffyn plant. **Rhaid** iddynt gael swyddog diogelu arweiniol dynodedig ar gyfer addysg.

Dylai'r awdurdod lleol wneud yn siŵr:

- bod eu uwch swyddogion addysg ar y Bwrdd Diogelu Plant
- eu bod yn cefnogi gwasanaethau i gydweithio
- eu bod yn gweithio gyda phartneriaid eraill fel yr heddlu a'r gwasanaethau iechyd
- bod gan bob lleoliad addysg yr holl adnoddau maen nhw eu hangen i gadw plant yn ddiogel
- eu bod yn gweithio gydag ysgolion annibynnol, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig
- bod pob ysgol yn dilyn y canllawiau hyn
- bod athrawon a llywodraethwyr ysgol yn cael yr holl hyfforddiant, y cymorth a'r cyngor maen nhw eu hangen
- bod pob aelod o staff yn cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf
- eu bod yn adnabod ac yn cefnogi DSP a llywodraethwr dynodedig pob ysgol
- bod gan bob ysgol bolisïau a chamau ar gyfer ymdrin â materion, gan gynnwys honiadau yn erbyn staff
- bod ysgolion yn gwneud y gwiriadau cyflogaeth cywir, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddiogelwch plant:

- sy'n aros am le ysgol
- mewn unedau cyfeirio disgyblion
- sy'n cael eu tiwtora gartref.



Mae gan awdurdodau lleol dair lefel cyfrifoldeb wahanol:

- **cyfrifoldebau strategol** — i sicrhau bod eu cynlluniau, eu hadnoddau a'u systemau yn cadw pob plentyn yn ddiogel
- **cyfrifoldebau cefnogi** — i sicrhau eu bod yn cefnogi pob lleoliad addysg yn y ffyrdd cywir
- **cyfrifoldebau gweithredol** — i sicrhau bod eu holl waith a chamau gweithredu o ddydd i ddydd yn cadw pob plentyn yn ddiogel.

## Cyrff llywodraethu

**Rhaid** i gyrff llywodraethu wneud y canlynol:

- sicrhau bod gan yr ysgol neu'r coleg bolisïau a gweithdrefnau diogelu
- cynnal y gwiriadau cywir ar gyfer staff a gwirfoddolwyr newydd gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- sicrhau bod pob pennaeth, athro ac aelod arall o staff yn cael yr hyfforddiant diweddaraf
- sicrhau bod canllawiau clir yn cael eu rhoi i staff dros dro
- sicrhau bod y DSP, y llywodraethwr dynodedig a chadeirydd y llywodraethwyr yn gweithio gyda'r Bwrdd Diogelu Plant a gwasanaethau eraill.

Dylai fod gan ysgolion a cholegau lywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu. Maen nhw'n cymryd cyfrifoldeb am amddiffyn plant. Dylai pob aelod o gyrff llywodraethu:

- gael hyfforddiant diogelu ac amddiffyn plant yn eu tymor cyntaf
- gwblhau'r modiwlau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel.

## Prif athrawon, penaethiaid ac arweinwyr

**Rhaid** i brif athrawon, penaethiaid ac arweinwyr sicrhau bod pob athro, staff a gwirfoddolwr:

- yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau amddiffyn diogelu
- yn meddu ar yr adnoddau maen nhw eu hangen i gadw plant yn ddiogel
- yn meddu ar amser i hyfforddi a chymryd rhan mewn cyfarfodydd
- yn gwybod sut i godi pryderon am blentyn yn y ffyrdd cywir
- yn gwybod pwy yw DSP yr ysgol a sut i gysylltu â nhw.

Dylen nhw:

- hyrwyddo cyfathrebu agored rhwng staff a disgyblion
- gael mwy nag un DSP os oes ei angen ar faint eu hysgol
- sicrhau bod y DSP yn cael yr holl adnoddau a chymorth maen nhw eu hangen
- rhoi amser i'r DSP gymryd rhan mewn cyfarfodydd diogelu a helpu gwasanaethau eraill i asesu anghenion plentyn.





## Unigolyn Diogelu Dynodedig (DSP)

Rôl y DSP yw cadw plant yn ddiogel, rhoi cyngor a chefnogi staff. **Nid** ymchwilio i honiadau na gyhuddiadau o gamdriniaeth yw eu rôl.

**Rhaid** i'r DSP:

- fod yn uwch aelod o staff, fod yn gallu gwneud penderfyniadau neu gymryd camau weithredu
- gael hyfforddiant mewn diogelu
- fod ar gael i drafod unrhyw bryderon
- gwybod sut i adnabod arwyddion o gamdriniaeth, esgeulustod a niwed, gan gynnwys cam-drin ar-lein
- gwybod sut i roi gwybod i'r awdurdod lleol neu'r heddlu am bryderon
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pennaeth am yr holl bryderon amddiffyn plant.

Dylen nhw:

- gyfathrebu â dysgwyr a staff
- gael y wybodaeth ddiweddaraf am achosion neu bryderon parhaus
- gael cefnogaeth gan arweinyddiaeth
- gael o leiaf un dirprwy i'w helpu
- gweithio gyda gwasanaethau eraill fel eu bod yn gwybod am risgiau yn eu hardal
- gwirio polisi ac arfer yn yr ysgol neu'r coleg o leiaf unwaith y flwyddyn
- sicrhau bod gan staff, dysgwyr a'u teuluoedd yr holl wybodaeth maen nhw ei hangen, mewn ffyrdd y gallant eu deall.

Os oes gan blentyn Gynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth, dylid cynnwys y DSP.

## Partneriaethau Addysg Cychwynnol Athrawon

Mae rhai ysgolion a cholegau mewn partneriaeth gyda Phrifysgolion ac mae ganddynt athrawon dan hyfforddiant. **Rhaid** iddynt sicrhau bod pob athro/athrawes dan hyfforddiant yn ddiogel i weithio gyda phlant mewn ysgolion. Dylent wneud yn siŵr bod athrawon dan hyfforddiant:

- yn cael cefnogaeth i'w lles
- yn datblygu arferion gwaith da o ran diogelu
- yn gwybod am yr holl gyfraith a chanllawiau ynghylch diogelu.

## Perchnogion ysgolion annibynnol

Os nad perchennog yr ysgol yw'r pennaeth, **rhaid** iddynt:

- cyfathrebu'n rheolaidd â'r pennaeth
- cael y wybodaeth ddiweddaraf a gyda'r holl faterion diogelu.

Os yw ysgol yn darparu llety i blant, **rhaid** iddynt gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'r ysgolion hyn yn cael eu harolygu gan AGC ac Estyn.

## Darparwyr dysgu seiliedig ar waith

**Rhaid** i'r darparwr sicrhau bod plant yn ddiogel. Dylen nhw wneud y canlynol:

- gwirio bod yr holl staff yn ddiogel i weithio gyda phlant
- rhoi arweiniad ar ddiogelu
- sicrhau bod ganddyn swyddog diogelu arweiniol dynodedig
- hyfforddi a chefnogi'r holl staff ar ddiogelu.

## Contractwyr

**Rhaid** i unrhyw gontractwr sy'n gweithio yn yr ysgol neu'r coleg fod wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gallant ddefnyddio'r canlynol:

- Offeryn cymhwysedd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Gwefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

## Pob athro, staff a gwirfoddolwr

Dylai pawb:

- ddeall y polisi diogelu
- gael hyfforddiant sefydlu a gloywi sy'n cwmpasu diogelu
- deall achosion camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed
- gallu adnabod arwyddion camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed
- gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon.

Mae'n **rhaid** i'r holl staff gael hyfforddiant gloywi bob dwy flynedd o leiaf.

**Rhaid** i'r DSP gadw cofnod o'r holl hyfforddiant staff, gan gynnwys dyddiadau a manylion y darparwr.

# Ymateb i bryderon

Pan fydd pawb yn gweithio gyda'i gilydd ac yn ymateb i bryderon yn y ffordd gywir, mae'n gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau plant.

Dylai pob ysgol a choleg wneud y canlynol:

- gweithio gydag awdurdodau lleol, yr heddlu, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill
- meithrin cydberthnasau â gwasanaethau eraill
- meddu ar gamau clir ar gyfer gwneud atgyfeiriadau a rhannu gwybodaeth
- gwneud atgyfeiriadau'n gyflym fel bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt pan fydd ei angen arnynt.

Dylai'r DSP:

- helpu staff
- gweithio'n agos gyda gwasanaethau eraill
- sicrhau bod pawb yn ymwybodol o Weithdrefnau Diogelu Cymru: Diogelu.Cymru.

## Gwybodaeth

**Rhaid** i ysgolion a cholegau rannu ac egluro'r holl bolisïau a gweithdrefnau fel rhan o'r broses sefydlu staff. Yn ystod y cyfnod sefydlu, **rhaid** rhoi gwybodaeth i'r staff am y DSP a sut i gysylltu â nhw. Dylai pob aelod o staff:

- fod yn ymwybodol o arwyddion camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed
- fod yn ymwybodol y gall camdriniaeth, esgeulustod a niwed effeithio ar unrhyw un
- siarad â'r DSP os oes ganddynt bryderon
- gwybod y gallant gysylltu â thîm gwasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol os oes angen iddynt
- gweithredu er lles gorau'r plentyn bob amser.



## Yr ymateb cywir i bryderon diogelu

**Ni** ddylid byth ofyn i unrhyw un sy'n mynegi pryderon am blentyn i'r ysgol neu'r coleg wneud hunan-adroddiad i'r gwasanaethau cymdeithasol na'r heddlu. **Rhaid** rhannu eu pryderon â'r DSP.

**Rhaid** rhannu pryderon â'r gwasanaethau cymdeithasol mewn adroddiad. Nid yw hyn bob amser yn arwain at gamau weithredu pellach, ond mae'n helpu i greu darlun fel bod teuluoedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn gyflym.

**Rhaid** i'r holl wybodaeth ac adroddiadau:

- fod yn gywir, yn gryno ac yn glir
- gael eu cadw'n gyfrinachol a'u rhannu yn y ffyrdd cywir yn unig.

## Cael cyngor

**Rhaid** i bob ysgol a choleg fod â system addas ar waith i staff gael cyngor a chasglu gwybodaeth. Os oes gan staff bryderon, **rhaid** iddynt siarad â'r DSP.

## Ymchwiliadau

**Ni** ddylai ysgolion a cholegau gynnal eu hymchwiliadau eu hunain. Os yw'r pryder yn ymwneud ag aelod o staff, **rhaid** i ysgolion a cholegau roi gwybod i'r awdurdod lleol neu'r heddlu amdano.



## Gwrando ar y plentyn

Dylai bob ysgol a choleg fod yn lle diogel i blant siarad am bethau sy'n effeithio arnynt. Dylai staff:

- annog plant i siarad am bryderon
- rhannu gwybodaeth glir am linellau cymorth a chynlluniau cymorth cyfoedion.

Bydd plant yn siarad am eu pryderon a'u problemau gyda phobl y teimlant y gallant ymddiried ynddynt ac y maen nhw'n gyfforddus â nhw. Efallai nad athro neu'r DSP fydd hwn. Os bydd plentyn yn siarad ag aelod o staff, **rhaid** iddo:

- ysgrifennu cofnod llawn o'r sgwrs cyn gynted â phosibl gan nodi amser, dyddiad llawn, lle, amgylchiadau'r cyfarfod, pwy oedd yn bresennol
- fod yn glir ynghylch ffeithiau, arsylwadau, honiadau a barn
- nodi unrhyw gamau a gymerwyd neu sylwadau / cyngor a roddwyd
- ei lofnodi, nodi'r amser a'r dyddiad
- gysylltu â'r DSP.

## Yr iaith Gymraeg

Dylai pob ysgol a choleg wneud y canlynol:

- gwneud y cynnig gweithredol o'r Gymraeg yn rhan o'u holl waith
- fod yn sensitif i anghenion iaith a diwylliannol eraill wrth sôn am faterion sensitif.

## Cynnwys rhieni neu ofalwyr

Mae angen i rieni a gofalwyr ddeall bod dyletswydd ar ysgolion a cholegau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae'n arfer da cynnwys hyn yn y prosbectws a'r wybodaeth a roddir i deuluoedd.

**Rhaid** i ddiogelwch y plentyn ddod yn gyntaf. Os yw'n ddiogel, trafodwch unrhyw bryderon am les plentyn gyda'i deulu. Os nad yw'n ddiogel, cysylltwch â'r DSP.

Bydd y DSP yn gweithio gyda gwasanaethau eraill a'r heddlu i benderfynu beth fydd yn digwydd nesaf.

## Anghenion dysgu ychwanegol

Dylai pob ysgol a choleg wneud y canlynol:

- deall y gall plant ag anghenion dysgu ychwanegol fod mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso a'u niweidio
- deall y rhwystrau y gallant eu hwynebu (yn enwedig o ran cyfathrebu)
- darparu unrhyw fesurau diogelu ychwanegol sydd eu hangen i'w diogelu.

## Diwylliant a chredoau

Dylai pob ysgol a choleg wneud y canlynol:

- dod i adnabod diwylliant a chredoau teuluoedd yn eu cymuned
- ymdrin â materion sensitif fel anffurfio organau rhywiol menywod (FGM) a phriodas dan orfod.

## Profiadau yn y gorffennol

Gall profiad o gam-drin ac esgeuluso wneud plant yn fwy agored i niwed. Dylai staff fod yn ymwybodol o hyn.

## Pryderon uniongyrchol

**Rhaid** i ysgolion a cholegau ddweud wrth yr awdurdod lleol os ydynt yn credu bod plentyn mewn perygl difrifol. Os oes pryderon uniongyrchol am ddiogelwch plentyn, **rhaid** cysylltu â'r heddlu ar unwaith.

## Rhoi gwybod am bryderon i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu

**Rhaid** i'r DSP benderfynu a ddylid rhoi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol a/neu'r heddlu. **Rhaid** i'r adroddiad:

- fod yn ysgrifenedig
- gynnwys yr holl wybodaeth sylfaenol gan gynnwys achos y pryder
- gael ei anfon o fewn 24 awr.

Os bydd adroddiad yn cael ei wneud yn bersonol neu dros y ffôn, **rhaid** ei gadarnhau'n ysgrifenedig o fewn 24 awr. Y tu allan i oriau swyddfa, **rhaid** cyflwyno adroddiadau i wasanaeth dyletswydd brys y gwasanaethau cymdeithasol neu i'r heddlu.

Dylai'r DSP wneud y canlynol:

- rhannu'r adroddiad gyda'r aelod o staff dan sylw a'r prif athro neu'r pennaeth
- esbonio beth sy'n digwydd, pwy sy'n cymryd y camau a pham.



## Rhannu gwybodaeth

Mae angen rhannu gwybodaeth yn y ffyrdd cywir. Dylai'r DSP wneud penderfyniadau ynghylch pa wybodaeth i'w rhannu.

Dylai'r Bwrdd Diogelu Plant sicrhau bod pob ysgol a choleg yn gwybod sut i rannu gwybodaeth yn ddiogel.

## Dyletswydd cyfrinachedd

Mae adegau, er lles gorau plentyn, pan fydd angen rhannu gwybodaeth gyfrinachol. Os oes angen i hyn ddigwydd dylai'r ysgol neu'r coleg:

- gefnogi'r plentyn
- ddweud wrth y plentyn, oni bai ei fod yn ei roi mewn perygl pellach
- gwneud yn siŵr bod unrhyw benderfyniad yn cael ei gofnodi.

## Cadw cofnodion

**Rhaid** i'r DSP wneud y canlynol:

- cadw cofnodion ysgrifenedig manwl a chywir o bryderon diogelu mewn man diogel
- cadw'r cofnodion hyn yn gyfrinachol ac ar wahân i gofnodion dysgwyr eraill
- anfon copi i ysgol neu goleg newydd plentyn pan fydd yn symud
- deall am faint y dylid cadw cofnodion unwaith y bydd y plentyn wedi gadael eich amgylchedd.

# Diogelu mewn amgylchiadau penodol

Dylai athrawon, staff a gwirfoddolwyr wybod beth yw'r arwyddion bod plentyn mewn perygl o niwed, esgeulustod a cham-drin fel y gallant godi eu pryderon a diogelu plant.

**Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan:**

- Diogelu plant rhag Camfanteisio Troseddol ar Blant (CCE)
- Diogelu plant rhag esgeulustod plant
- Diogelu plant rhag Camfanteisio Rhywiol ar Blant (CSE)
- Diogelu plant sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin domestig
- Diogelu plant rhag arferion niweidiol sy'n ymwneud â thraddodiad, diwylliant, crefydd neu ofergoel
- Diogelu plant lle mae pryderon am Ymddygiad Rhywiol Niweidiol (HSB)
- Diogelu plant sy'n mynd ar goll o gartref neu ofal
- Diogelu plant rhag cam-drin ar-lein
- Diogelu plant y gellir eu masnachu
- Plant ar eu Pen eu hunain yn Ceisio Lloches (UASC).

## Cam-drin cyfoedion ac ymddygiad rhywiol niweidiol

Dylai'r DSP gael hyfforddiant i ddeall a chydnabod y math hwn o gamdriniaeth. Dylai ysgolion a cholegau ddefnyddio'r canlynol:

- Canllaw Ymarfer Cymru ar Ddiogelu plant rhag camfanteisio rhywiol ar blant (CSE)
- Canllaw Ymarfer Cymru ar Ddiogelu plant lle mae pryderon am ymddygiad rhywiol niweidiol.

Mae mwy o ganllawiau ar gael ar Hwb.

## Delweddau cam-drin plant a'r rhyngrwyd

Dylai ysgolion a cholegau ddefnyddio'r canllawiau, yr hyfforddiant a'r cymorth gan:

- Y Ganolfan Camfanteisio ar Blant a Diogelu Plant Ar-lein
- Canllaw Ymarfer Cymru ar Ddiogelu Plant rhag Cam-drin Ar-lein.





## Plant ar goll o gartref neu ofal

Dylai ysgolion a cholegau wneud y canlynol:

- defnyddio eu cofnodion presenoldeb i nodi patrymau absenoldebau
- cadw mewn cysylltiad â rhieni a gofalwyr
- olrhain yn gyflym i wneud yn siŵr bod plentyn yn ddiogel.

Gall cofnodion presenoldeb amlygu pryderon ac atal camdriniaeth. Os yw plentyn ar goll, dylai ysgolion a cholegau gyfeirio at:

- Canllaw Ymarfer Cymru ar ddiogelu plant sy'n mynd ar goll o'u cartref neu ofal.

## Bwlio

Mae gennym ganllawiau i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol i helpu i atal bwlio: 'Hawliau, parch, cydraddoldeb'.

**Rhaid** i ysgolion a cholegau gymryd camau i atal bwlio a chadw pob plentyn yn ddiogel. Mae pecynnau cymorth ar yr Hwb.

## Trosedd Casineb

Rydym wedi ariannu:

- llinell gymorth i blant a phobl ifanc yn MEIC Cymru
- Canolfan Troseddau a Digwyddiadau Casineb Genedlaethol yn Cymorth i Ddioddefwyr Cymru.

## Cynhwysiant a chymorth i ddisgyblion

Mae'r Canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion yn helpu ysgolion a cholegau i ddeall eu cyfrifoldebau.

## Plant yn Colli Addysg

Mae gennym ganllawiau i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg. Mae'n cynnwys pecyn cymorth.

## Plant Mewn Gofal

**Rhaid** i bob corff llywodraethu gael aelod dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Os oes pryder, **rhaid** i'r llywodraethwr hwn:

- siarad â'r DSP
- gynnwys unigolyn arweiniol yr ysgol ar gyfer plant mewn gofal.

Mae mwy o wybodaeth yn Gwneud gwahaniaeth: Canllaw i'r unigolyn dynodedig ar gyfer plant mewn gofal mewn ysgolion.


## Camddefnyddio sylweddau

Gall gwasanaethau cwnsela cymunedol ac mewn ysgolion ddarparu cymorth. Mae arweiniad a chyngor yn:

- Rhaglen Gyswllt Ysgolion Cymru Gyfan
- Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol Cymru: DAN 24/7.

## Hunanladdiad a hunan-niwed

Rydym wedi cynhyrchu canllawiau: Ymateb i faterion hunan-niwed a meddyliau am hunanladdiad ymhlith pobl ifanc.



## Cyswllt corfforol â disgyblion, gan gynnwys ataliaeth

Efallai y bydd yn rhaid i athro neu aelod o staff ddefnyddio grym rhesymol i atal plentyn rhag brifo ei hun neu rywun arall.

Mae arweiniad a chyngor yn:

- Fframwaith ataliaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Ymyrraeth ddiogel ac effeithiol: Y defnydd o rym rhesymol
- Cynhwysiant a Chymorth i Ddisgyblion
- Canllaw arfer da:Cyswllt corfforol priodol â dysgwyr a phobl ifanc
- Cod ymddygiad ac ymarfer EWC.

# Cam-drin domestig, trais ar sail rhywedd, trais rhywiol ac arferion diwylliannol niweidiol

## Cam-drin domestig

Mae gennym Strategaeth Genedlaethol a Fframwaith Cyflawni Traws-Lywodraethol.

Ond mae yna hefyd:

- Canllaw Ymarfer Da: Dull Addysg Gyfan o ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru
- Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol - Arweiniad i Lywodraethwyr.

Mae siarad am y materion hyn yn helpu plant i adnabod ymddygiad amhriodol. Mae Ymgyrch Encompass yn cefnogi plant sy'n cael eu cam-drin yn y cartref. Mae hyn yn cael ei gyflwyno ledled Cymru.

Os oes gan athrawon neu staff ysgol bryder, dylent ddweud wrth y DSP. Mae cyngor ac arweiniad yn: llyw.cymru/byw-heb-ofn.

## Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM):

Dylai athrawon a staff:

- fod yn ymwybodol y gellir mynd â merched dramor ar gyfer anffurfio organau cenhedlu benywod
- gwybod beth yw arwyddion FGM.

Mae canllawiau yn:

- Canllawiau statudol aml-asiantaethol ar anffurfio organau cenhedlu benywod
- Adrodd gorfodol ar Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod — gwybodaeth weithdrefnol.

## Priodas dan Orfod

Canllawiau ymarfer aml-asiantaethol: Mae Ymdrin ag achosion o Briodas dan Orfod yn cynnwys cyngor cam wrth gam.





# Cadw plant yn ddiogel ar-lein

Mae ardal Cadw'n ddiogel ar-lein ar Hwb yn cynnwys offer ac adnoddau ar-lein i helpu ysgolion a cholegau i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ar-lein.

- Cynllun gweithredu diogelwch ar-lein ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru — mae'r ddogfen hon yn crynhoi addewidion Llywodraeth Cymru ar gyfer cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ar-lein
- 360degree safe Cymru — offeryn rhyngweithiol ar Hwb i ysgolion olrhain y gwaith maen nhw'n ei wneud ynghylch diogelwch ar-lein.

## Ffrydio gwersi'n fyw

Mae amddiffyn plant a phobl ifanc yn hanfodol wrth ffrydio gwersi byw. Mae cyngor ac arweiniad i ysgolion a cholegau yn:

- Egwyddorion ac arferion diogelu ffrydio byw ar gyfer ymarferwyr addysg.

## Rhannu delweddau

Gall rhannu delweddau amlygu pobl i embaras, bwlio a chamfanteisio. Mae arweiniad a chyngor yn:

- Secstio: Ymateb i ddigwyddiadau a diogelu dysgwyr
- Diogelwch Ar-lein: Pum cwestiwn allweddol i gyrff llywodraethu
- Adrodd am Gynnwys Niweidiol
- Llinell Gymorth Diogelwch Ar-lein Gweithwyr Proffesiynol (POSH)
- Cadw'n ddiogel ar-lein.

Mae Childline wedi datblygu offeryn adrodd a thynnu sy'n caniatáu i bobl ifanc adrodd am ddelwedd a'i dynnu oddi ar y rhyngrwyd.

# Cydlyniant Cymunedol

## Rhoi'r gorau i radicaleiddio

Mae llawer o ffactorau sy'n dylanwadu ar ddiddordebau plentyn sy'n agored i niwed. Dylai ysgolion a cholegau fod yn ymwybodol o newidiadau mewn ymddygiadau, ystyried ffactorau sy'n cyfrannu at ymddygiad a diddordeb megis diffyg galluoedd personol, unigedd ac ati. Lle mae ideolegau'n amlwg, dylid cysylltu â'r DSP.

**Rhaid** i weithdrefnau diogelu ysgolion a cholegau gwmpasu radicaleiddio ac eithafiaeth. Mae arweiniad a chyngor yn:

- Canllawiau ar Ddyletswydd Atal: ar gyfer Cymru a Lloegr ar gyfer cyrff cyhoeddus penodedig, gan gynnwys darparwyr addysg
- Canllawiau ar ddyletswydd atal: ar gyfer sefydliadau addysg bellach yng Nghymru a Lloegr
- Parch a gwydnwch: Datblygu cydlyniant cymunedol – dealltwriaeth gyffredin i ysgolion a'u cymunedau
- Cymunedau Dysgu Diogel.

## Y Ffurflen Atgyfeirio

Os yw'r DSP yn credu bod plentyn mewn perygl o radicaleiddio, dylent ddefnyddio Ffurflen Atgyfeirio Partneriaid Atal Cymru Gyfan.



# Arferion recriwtio staff mwy diogel

**Rhaid** i'r holl staff addysgu a chymorth fod wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (EWC) os ydyn nhw yn un o'r categorïau cofrestru. **Rhaid** i ysgolion a cholegau wirio'r gofrestr cyn cyflogi unrhyw un.

Mae gan Gyngor y Gweithlu Addysg y canlynol:

- Canllawiau ar gofrestru athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion
- Canllawiau ar gofrestru darlithwyr AB a gweithwyr cymorth dysgu AB.

## Athrawon Llanw

Mae gwahanol ffyrdd o ddod o hyd i athrawon llanw:

- penodi'n uniongyrchol
- defnyddio rhestrau cyflenwi awdurdodau lleol
- defnyddio asiantaeth gyflenwi fasnachol.


Dylai ysgolion a cholegau ddefnyddio asiantaethau cyflenwi ar fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

**Rhaid** i'r asiantaeth a'r ysgol neu'r coleg wirio statws athrawon cyflenwi gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Ni all y naill na'r llall ragdybio bod y gwiriad wedi'i wneud. Mae'n **rhaid** i staff cyflenwi hefyd fod wedi cofrestru gyda'r EWC.

## Chwythu'r Chwiban

Dylai fod gan gyrff llywodraethu weithdrefn chwythu'r chwiban. Mae arweiniad a chyngor yn:

- Gweithdrefnau ar gyfer Chwythu'r Chwiban mewn ysgolion a Pholisi Enghreifftiol
- Llinell gymorth chwythu'r chwiban NSPCC.



**Diolch am ddarllen hwn.**

Gallwch ddarllen y canllawiau llawn yn:
gov.wales/keeping-learners-safe.